# RHODIO'R RHYL



***Ariennir Rhodio'r Rhyl gan:***

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

***Ac fei cyflwynir i chi gan:***

CYNGOR TREF Y RHYL TOWN COUNCIL

**Helo a chroeso i ail rifyn *Rhodio'r Rhyl;* fy nghyntaf fel maer y Rhyl.**

Diolch i bob un ohonoch am eich adborth ar ein rhifyn cyntaf, arbrofol.

Rydym yn falch o glywed bod cymaint ohonoch wedi mwynhau ein cylchgrawn a'i fod wedi rhoi rhywbeth i chi ei wneud yn ystod y cyfnod clo.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sy'n golygu y gallwn barhau i gyflwyno ***Rhodio'r Rhyl*** for i chi am y flwyddyn nesaf.

Yn y rhifyn hwn, mae gennym weithgareddau newydd i chi, gan gynnwys cystadleuaeth stori fer.

Yn ddiweddar, roeddwn yn ddigon ffodus i gyfarfod y chwioryddRachel a Ruth Williamson, sy'n creu gorchuddion blychau post wedi eu crosio, ac sydd wedi bywiogi ein tref dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rwyf wedi cyflwyno tystysgrifau Cyngor Tref wedi'u fframio i'r ddwy chwarae ddiwyd, yn diolch iddyn nhw am eu hymdrechion.

A'r gorchuddion blwch post sydd wedi ysbrydoli'r syniad ar gyfer un o'r cwisiau yn y rhifyn hwn.

Rhowch eich gwybodaeth leol ar waith i weld os gallwch weithio allan yr enwau strydoedd poblogaidd.

Rhywbeth i bob un ohonom feddwl amdano.

A pheidiwch ag anghofio – rydym yma i chi felly os ydych chi angen unrhyw beth, cysylltwch â'ch cynghorydd lleol. Made'r manylion cyswllt i'w gweld drwy'r cylchgrawn.

Dymuniadau gorau.

*Maer y Rhyl, Y Cynhorydd Diane King*

## Cynnwys

**Tudalen 3** Troi Amser am yn Ôl - cwis

**Tudalen 4** Darganfod Gogledd Cymru – chwilio geiriau

**Tudalen 5** Strydoedd! Ble yn y Rhyl ydw i?


**Tudalen 6** Lliwio'r haf


**Tudalen 8** Stori amser te - cystadleuaeth

**Tudalen 10** Gwneud eich cerdyn post eich hun



**Darlun:** Cyngor Sir Ddinbych






**Rhywbeth yr hoffech ei weld yn Rhodio'r Rhyl?**
**enquiries@rhyltowncouncil.org.uk**

# TROI AMSER AM YN ÔL




**Faint ydych yn ei wybod am hanes y Rhyl?**

**Ydych chi ar frig y dosbarth**

**Daeth miloedd o bobl allan i gyfarfod y cwpl Brenhinol hwn. Ond ym mha flwyddyn?**

**1.** Ymwelodd y Dywysoges Diana a'r Tywysog Charles â'r Rhyl ar y dyddiad hwn H _ _ _ _ F 1_ 8_

**2.** Y tŷ hynaf yn y Rhyl yw:
T _ _ R_ _ I
Pwyntiau ychwanegol os ydych chi'n gwybod ar ba stryd y mae.

**3.** Agorodd gorsaf reilffordd y Rhyl yn y flwyddyn hon: 1 _ _ 8

**4.** Ym 1893, cynhaliodd y Rhyl beth?
E_ _ _ _ _ _ _ _ _D Genedlaethol

**5.** Ym 1867, adeiladwyd pier y Rhyl, yr hiraf yng Nghymru. Ym mha flwyddyn cafodd ei ddymchwel?
1 _ _ 2.

**6.** Pwyntiau ychwanegol os ydych yn gwybod pa mor hir oedd y pier 2 _ _ 5 troedfedd.

**Atebion**
Hydref 1981
Ty'n Rhy/Vale Road
1981
Eisteddfod Genedlaethol
1972
2355ft

# Chwilio Geiriau

## DARGANFOD GOGLEDD CYMRU

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | S | P | N | I | S | O | R | I | L | Y | O | G | N |
| H | D | O | H | S | Y | G | A | S | O | R | E | H | T |
| R | A | G | E | I | O | N | R | A | N | N | S | Y | D |
| H | E | S | O | O | I | T | O | Y | N | O | O | O | A |
| L | H | O | Y | E | O | R | G | N | Y | I | N | T | Y |
| E | R | R | G | D | O | R | O | Y | W | R | S | N | E |
| R | E | R | O | Y | A | E | R | S | E | I | N | O | M |
| Y | G | O | G | O | N | O | D | S | R | E | O | P | R |
| R | G | I | A | H | A | P | H | E | D | M | T | O | Y |
| I | O | A | R | O | G | O | O | I | A | H | R | R | D |
| N | L | Y | T | T | R | R | O | R | E | T | O | T | O |
| R | I | E | H | N | A | Y | E | I | A | R | H | H | N |
| R | R | R | E | H | O | O | T | O | H | O | R | O | R |
| I | R | R | R | O | Y | H | Y | L | R | P | N | R | O |

YNYS SEIRIOL
PORTHOR
RHAEADR EWYNNOL
ERYRI
LOGGERHEADS
Y GOGARTH
PORTHMEIRION
HORTONS NOSE



# STRYDOEDD

Enwch y mannau hyn yn Rhyl yn eich cwis cyflym. Bydd y gorchuddion blwch post yn eich helpu ar eich ffordd.


**Mae'r gwenyn yn brysur yma.**

**G _ _ _ _ _ D R_ _ D**




**Lle mae'r dreigiau ffyrnig yma?**

**E _ _ T P_ _ _ _ E**



**Lle mae'r sleid sblasio yma?**

**_ _ _**




**Enwch y bont yma?**

**P_ _ T y D_ _ _ _ G**



**Atebion**
Garford Road
East Parade
SC2
Pont y Ddraig

# GAFAELWCH YN EICH PENSILIAU LLIW AC YMLACIWCH!



# HELO I'R HAF!





# CYSTADLEUAETH STORI AMSER TE

Mae Cynghorydd Tref y Rhyl Win Mullen-James yn mwynhau stori fer. Nawr, mae'n eich herio chi i ysgrifennu eich stori eich hun.

Mae wedi rhoi'r llinellau agoriadol i chi a'r cyfan sydd angen i chi ei wneud, mewn 250 gair neu lai, yw gorffen y stori.

Anfonwch eich stori i enquiries@rhyltowncouncil.org.uk neu ei phostio i:

**Cyngor Tref y Rhyl, Canolfan Gymunedol Wellington Ffordd Wellington Rhyl LL18 1LE**

Byddwn yn dewis y buddugol.

Bydd y stori fer orau yn derbyn tystysgrif Cyngor Tref y Rhyl wedi ei fframio a, pwy â wyr, gallai eich stori ymddangos yn rhifyn nesaf ***Rhodio'r Rhyl.***

Roeddwn yn eistedd ar goets yn aros i drosglwyddo i'r gwesty, a phan edrychais allan drwy'r ffenestr, gwelais ferch ifanc yn gadael adeilad y maes awyr, yn tynnu ei siwtces y tu ôl iddi.

Unaith allan o'r adeilad, eisteddodd yn drwm ar y cyrb, ac mewn ychydig o eiliadau, ymunodd gŵr ifanc gyda siwtces tebyg gyda hi. Roedd y ddau mewn trafodaeth ddofn, er ei bod yn anodd dweud am beth o ble roeddwn i. Gallwn weld bod y ddynes, er ei bod yn ddiwrnod cynnes o haf, wedi ei gwisgo mewn côt wlân a het, a'i bod wedi ypsetio. Er gwaethaf ei dagrau, nid oedd yn amddangos bod y gŵr ifanc yn cael ei effeithio gan ei dagrau, gan ruthro i ffwrdd a gadael y ferch ar ymyl y ffordd.

# HELP A CHYNGOR

**Llywodraeth Cymru (rheoliadau ledled Cymru): 0300 0604400**
www.gov.wales/

**Iechyd Cyhoeddus Cymru (darlun iechyd diweddaraf):**
www.phw.nhs.wales

**Cyngor Tref y Rhyl: 01745 331114**
Siarad gyda'ch cynghorwyr lleol:

**Cyngor Sir Ddinbych:**
01824 706000
www.denbighshire.gov.uk/en/coronavirus/coronavirus.aspx

**Samariaid: 116 123**
https://www.samaritans.org/wales/samaritans-cymru/

**Age UK: 0800 678 1602**
https://www.ageuk.org.uk







## Y Cyngh. Joan Butterfield yn siarad am gyfeillgarwch

Fel llawer o gynghorwyr, dros y flwyddyn ddiwethaf rydw i wedi bod yn galw ar drigolion sydd wedi bod yn gochelu. Mae fy nghylch bach i dros 80 oed ac rwyf wedi bod yn siarad â nhw am dros chwe mis, yn ddyddiol i ddechau a nawr bob wythnos.
Maent oll wedi dod yn ffrindiau, ac rwyn edrych ymlaen at glywed eu lleisiau.
Rwy'n edrych ymlaen at allu mynd allan am ginio a rhoi wyneb i'r lleisiau rwy'n eu hadnabod mor dda.
Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi rhannu straeon, rhai yn drist iawn, ond mae'r rhan fwyaf wedi bod yn rhai positif a hapus; mwy fyth nawr gan eu bod oll wedi cael y brechlyn.
Mae wedi bod yn gymaint o hwb iddyn nhw, gan fy nghynnwys i. Rwy'n gwybod y byddaf yn aros mewn cysylltiad â nhw.
Pan rydych yn mynd yn hŷn, nid yw mor hawdd gwneud ffrindiau newydd, felly byddaf yn trysori'r cysylltiadau newydd hyn sydd wedi dod o'r pandemig.

Rydym yma i'ch helpu, fel cynghorwyr, ac i ateb ymholiadau a chwestiynau. Os hoffech sgwrs mae'r manylion yn www.rhyltowncouncil.org.uk neu ffoniwch 01745 331114.

# HELO O'R RHYL YN YR HAUL

Colli ffrind?
Eisiau gadael i anwyliad wybod eich bod yn meddwl amdanyn nhw?
Pam na wnewch eich cerdyn post eich hun a'i anfon atyn nhw.
Torrwch y llun isod allan a'i lynu ar ddarn o bapur A4 cryf wedi ei blygu yn ei hanner. Ychwanegwch eich dyluniad eich hun ar yr ymylon, ysgrifennwch eich neges, ei roi mewn amlen a dyna ni!
Eich cerdyn arbennig chi o'r Rhyl yn yr Haul yn barod i fynd.
Postiwch o un o'r blychau post gyda'r gorchuddion lliwgar i roi gwên ychwanegol!
Diolch i Gyngor Sir Ddinbych am y ffotograff.

**Byddai'n dda petaech yma!**
**Rydyn ni'n cael hwyl!**

